




NODIADAU CYMORTH AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD.



www.gwynedd.llyw.cymru/digwyddiadau



CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Annwyl Drefnydd Digwyddiad,

Fel Arweinydd Cyngor Gwynedd mae'n bleser gennyf gael cyflwyno'r 'Nodiadau Cymorth' yma i Drefnwyr Digwyddiadau canllaw cynhwysfawr ac amhrisiadwy i'r bobl hynny sy'n gweithio'n ddiflino a chyda brwdfrydedd di ddiwedd i drefnu rhaglen eang o ddigwyddiadau yma yng Ngwynedd.

Nid yn unig mae digwyddiadau wedi llwyddo i annog balchder a chyfranogaeth gymunedol ond maent hefyd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i adfywiad economaidd a lles yr ardal ac wedi codi proffil Gwynedd ar lefel cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae llwyddiant unrhyw ddigwyddiad, pa fo bynnag ei faint, parhad neu gynnwys yn dibynnu gan fwyaf ar ymrwymiad a gwaith caled llwyr y bobl hynny sy'n rhoi o'u hamser a'u hynni i drefnu'r gweithgareddau. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod trefnwyr unrhyw ddigwyddiad angen cefnogaeth ac adnoddau i ateb y gofynion, cyfyngiadau a chyfrifoldebau y mae trefnu digwyddiadau o'r fath eu hangen. I gynorthwyo â'r materion hyn mae'r Cyngor am weithio i gynorthwyo trefnwyr digwyddiadau i gynllunio a chyflawni ystod eang o ddigwyddiadau rheolaidd, cyraeddadwy, phroffidiol a chynaliadwy yn nhrefi, dinasoedd a phentrefi'r Gwynedd.

Cynlluniwyd y 'Nodiadau Cymorth' yma i gynorthwyo a chynghori trefnwyr digwyddiadau yn y broses trefnu yn cynnwys, cydlynu lleoliadau, rheoli trafnidiaeth, diogelwch, arlwy, gwasanaethau brys, gwasanaethau cyhoeddus a materion iechedd a diogelwch, cysylltiadau defnyddiol a llawer mwy.

Rydym yn ymdrechu'n barhaol i wella ein perthynas hefo'r diwydiant digwyddiadau yma yng Ngwynedd trwy becyn o gefnogaeth ac arweiniad cynhwysfawr. Os oes gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â chynnwys neu adnoddau yn y llyfryn hwn neu'r wefan os ydych angen cyngor arbenigol nad yw yn gynnwysedig yma, mae pob croeso i chi gysylltu â'n [Rheolwr Digwyddiadau](#). Dymunaf bob llwyddiant i chi gyda'ch digwyddiad eleni ac i'r dyfodol ac os yw eich digwyddiad yn ymweld â'n hardal am y tro cyntaf, hyderaf ein bod wedi diwallu eich disgwyliadau a mwy ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yma i Wynedd nawr ac am lawer blwyddyn i ddod.

Cyng. Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd.



CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

CYNNWYS.

CYFLWYNIAD	tud 5.
CYNLLUNIO EICH DIGWYDDIAD	tud 8.
MATERION I'W HYSTYRIED	tud 10.
YSTYRIAETHAU ERAILL MWY CYFFREDINOL	tud 21.
PWY SY'N GYFRIFOL AM IECHYD A DIOGELWCH MEWN DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS	tud 23.
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL	tud 25.
CYHOEDDIADAU DEFNYDDIOL	tud 27.



CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

CYFLWYNIAD.

Dylid ystyried y canllaw hwn yn ddim mwy na chyflwyniad i drefnu digwyddiad. Mae pob math o ddigwyddiadau bach a mawr ond yr un egwyddorion sylfaenol trefnu digwyddiad sy'n berthnasol i bob un. Rhaid cynllunio pob digwyddiad yn ofalus; nid yw talent, gallu na'r holl fwriadau da yn y byd yn cymryd lle cynllunio gofalus a manwl.

Mae cynllunio mewn da bryd yn rhoi cyfle i chi baratoi cyllideb ac archwilio'r posibilrwydd o lwyddiant. Cyn i chi gychwyn cynllunio eich digwyddiad, cymerwch eiliad i ystyried eich cyfrifoldebau fel trefnydd y digwyddiad.

Fel trefnydd digwyddiad mae gennych gyfrifoldebau am y canlynol:

Cyngor Gwynedd a chyrrff statudol eraill.

Fe'ch cyngorir i gysylltu â Chyngor Gwynedd gyda'ch cynlluniau digwyddiad, y rhan fwyaf o'r amser byddwch angen gwneud cais am ganiatâd a thrwyddedau, gan eu sicrhau y bydd eich digwyddiad yn un diogel a'ch bod wedi cynllunio ar gyfer pob posibilrwydd.

Y cyhoedd.

Chi fydd yn gyfrifol am gynnal a rhedeg digwyddiad yn unol â'r hyn sydd yn eich cyhoeddusrwydd ac am sicrhau fod y cyhoedd mewn amgylchedd diogel yn ystod y digwyddiad a bod eu lles wedi'i ystyried.

I chi eich hun a'ch tîm.

Chi fydd yn gyfrifol am ystyried a chynllunio pob agwedd o'r digwyddiad mewn da bryd o flaen llaw fel y bydd eich digwyddiad yn rhedeg mor esmwyth â phosib a'ch bod yn gallu ymdopi a'r cyfrifoldebau ar ddiwrnod y digwyddiad.

I'r gyfraith.


Fel trefnydd y digwyddiad rydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am y digwyddiad ac mae gennych ddyletswydd gofal dros bawb. Yn ogystal â'r ddyletswydd gofal bydd gofyn i chi ateb gofynion ieuchyd a diogelwch (yn unol â'r deddfau a'r rheoliadau) Bydd y goblygiadau hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n mynychu'r digwyddiad, holl aelodau'r tîm digwyddiad, holl weithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr a'r cyhoedd ehangach.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Mae cyfraith gwlad a gofynion statudol yn gofyn i chi sicrhau nad yw eich digwyddiad yn achosi niwsans i drydydd parti. Mae anwybyddu neu esgeuluso rhywbeth yr ydych yn gwybod sy'n anniogel neu niweidiol iddynt yn anghyfreithlon ac fe allasai arwain at erlyniad neu at hawl sifil. Mae hyn yn berthnasol os ydych yn bresennol ar y cyd neu fel cyflogai.

Mae'r cyfrifoldeb terfynol am yr holl faterion sy'n ymwneud a diogelwch unrhyw ddigwyddiad a gweithrediad unrhyw argymhellion yn y ddogfen yma yn disgyn ar ysgwyddau trefnydd y digwyddiad. Yn ogystal â'r canllaw hwn, fe'ch cynghorir yn gryf i ymgynghori a chyhoeddiad y Fforwm Digwyddiadau sef y [Canllaw Porffor](#) canllaw ar gyfer iechyd, diogelwch a lles yn ystod digwyddiadau cerddorol a digwyddiadau tebyg.

CYNLLUNIO EICH DIGWYDDIAD



CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

CYNLLUNIO EICH DIGWYDDIAD.

Gweithred 1.

Ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb (ble, pryd, beth, pam) datblygu cynllun lleoliad ynghyd ag amlinelliad cynllun digwyddiad

Gweithred 2.

Cael caniatâd ysgrifenedig gan y tîrfeddiannwr i ddefnyddio tir ac adeiladau ar gyfer eich digwyddiad.

Gweithred 3.

Ymgymryd ag ymchwil perthnasol a chael cyngor gan Awdurdodau cyfrifol perthnasol. Bydd gofyn i chi hefyd gofrestru eich digwyddiad gyda Chyngor Gwynedd ar www.gwynedd.gov.uk/events.

Gweithred 4.

Datblygu Cynllun drafft Rheoli Digwyddiad, os oes gofyn, gwneud cais am drwydded eiddo neu hysbysiad digwyddiad dros dro i gynnal gweithgaredd rheoledig.

Gweithred 5.

Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu trigolion lleol a busnesau am eich cynlluniau digwyddiad, gan wrando ar unrhyw adborth y byddwch yn ei dderbyn. Os ydych yn rhagweld unrhyw broblem efallai y byddai'n werth i chi ystyried cynnal cyfarfod ar gyfer busnesau a thrigolion lleol.

Gweithred 6.

Cyflwyno cynllun ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall i GYD os oes gofyn am hynny, neu efallai y byddwch yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod GYD.

Gweithred 7.

Os nad oes gweithred reoledig yn gysylltiedig â'r digwyddiad yna gellir anwybyddu Gweithred 7. Os oes gweithgaredd rheoledig yna bydd yn rhaid i chi gyflwyno cais am unai [Trwydded Eiddo](#) neu [Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro](#). Os nad yw'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn unrhyw wrthwynebiad neu gynrychiolaeth gan Awdurdodau cyfrifol eraill neu ddeiliaid diddordeb eraill megis busnesau neu drigolion lleol yna fe ganiateir trwydded. Os derbynnir cynrychiolaethau gwrthwynebu, gall hawliwr (chi) ofyn am gael trafod cytundeb gyda'r rhai sy'n gwneud cynrychiolaeth gwrthwynebu a'r Awdurdod trwyddedu. Os na cheir cytundeb fe gynhelir gwrandawriad trwyddedu fydd yn penderfynu ynglŷn a'r cais.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Gweithred 8.

Cyn gynted ag y caniateir trwydded neu yn dilyn gweithred 6, os nad oes gweithgaredd rheoledig, dylid creu cynllun rheolaeth digwyddiad terfynol yn cynnwys unrhyw newidiadau.


Gweithred 9.

Cyfarfod olaf GYD cyn y digwyddiad.

Gweithred 10.

Mae'ch digwyddiad yn barod i ddechrau - **MWYNHEWCH.**

Mae hwn yn strwythur generig, mae pob digwyddiad yn wahanol ac efallai y bydd eisiau addasu'r strwythur yma ychydig yn dibynnu ar y digwyddiad unigol.



MATERION I'W HYSTYRIED

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

MATERION I'W HYSTYRIED.

Trwyddedu eich Digwyddiad.

Mae [Deddf Trwyddedu 2003](#), yn un hynod gymhleth yn ddibynnol ar natur y digwyddiad byddwch angen trwydded ar gyfer y gweithgareddau canlynol

- Cerddoriaeth a dawnsio.
- Gwerthu a chyflenwi alcohol.
- Dramâu.
- Digwyddiadau chwaraeon dan do.
- Bocsio a wrestlo.
- Ffilm.
- Cyflenwi bwyd poeth ar ôl 11.00 p.m.

Bydd natur y drwydded a fyddwch ei hangen yn dibynnu ar leoliad y digwyddiad a pha un ai yw'r lleoliad a fwriedir ar gyfer y digwyddiad yn eiddo sydd eisoes wedi ei drwyddedu ai pheidio. Rhoddir ystyriaeth hefyd i hyd y digwyddiad a'r niferoedd a fydd yn mynychu. O dan Ddeddf 2003 mae 3 prif gategori o drwyddedau y dylai'r trefnyddion digwyddiadau fod yn ymwybodol ohonynt y rhain yw:

Trwydded Eiddo.

Mae [Trwydded eiddo](#) yn ofynnol yng nghyswllt unrhyw eiddo sy'n darparu adloniant a / neu alcohol ac / neu luniaeth hwyr. Bydd hyn yn cynnwys masnachwyr bwyd symudol sy'n gweithredu gyda'r nos wedi 11pm. Bydd trwydded eiddo sengl yn cynnwys holl weithgaredd trwyddedig y bydd y busnesau yn dymuno eu gweithredu. Mae trwydded eiddo'n awdurdodi'r daliwr i ddefnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig. Bydd y drwydded eiddo yn rhoi manylion yr holl amodau gweithredu. Pwrpas yr amodau hyn yw rheoleiddio defnydd yr eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig yn unol ag amodau trwyddedu. Bydd trwydded eiddo yn aros mewn grym nes y bydd yn cael ei diddymu neu ei dychwelyd, nid yw'n gyfyngedig o ran amser oni bai bod yr ymgeisydd yn gofyn am drwydded am amser penodedig. Gellir gwneud cynrychiolaethau ynglŷn â chaniatâd trwydded eiddo; er enghraifft, trigolion a busnesau lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a chyrrff cyhoeddus gyda chyfrifoldeb am iechyd yr amgylchedd a lles plant. Rhaid i'r cynrychiolaethau ymwneud â hyrwyddo amcanion trwyddedu. Unwaith y caniateir trwydded, gall yr un dosbarthiadau o bobl ofyn am adolygiad y drwydded eiddo a'r amodau sy'n ymwneud a hi.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Hysbysied Digwyddiad Dros Dro.

Mae ['Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro'](#) yn sefydlu trefniadau newydd ar gyfer cynnal gweithgareddau trwyddedig yn ystod digwyddiadau achlysurol dros dro. Mae'r trefniadau hyn yn cymryd lle systemau caniatâd achlysurol a thrwyddedau achlysurol, Maent yn berthnasol yng nghyd-destun digwyddiadau gyda llai na 500 o bobl yn mynychu yn unig. Mae'r hysbysiadau newydd yn seiliedig ar hysbysiad i'r awdurdod trwyddedu am fanylion amlwg o'r digwyddiad a chydabyddiaeth gan yr awdurdod hwnnw o'r hysbysiad. I adlewyrchu natur dros dro'r digwyddiadau, nid yw'r trefniadau yma yn rhoi'r trefnyddion dan yr un goblygiadau ac sy'n berthnasol i'r rhai hynny sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau trwyddedig yn rheolaidd ar neu o'r eiddo. Os yw'r digwyddiad i gael ei gynnal ar dir nad yw wedi ei drwyddedu'n barod; eich bod yn disgwyl mwy na 500 o bobl a / neu y bydd y digwyddiad yn parhau am fwy na 4 diwrnod, yna mae'n bosibl bod y digwyddiad wedi ei warantu dan amodau'r drwydded eiddo. Os yw'r digwyddiad tu allan i amodau'r drwydded eiddo yna rhaid gwneud cais i un ai newid y drwydded gyfredol neu wneud cais am drwydded newydd a allai fod wedi ei chyfyngu o ran amser.

Os yw'r digwyddiad i gael ei gynnal ar dir nad yw wedi ei drwyddedu'n barod; eich bod yn disgwyl mwy na 500 o bobl a / neu y bydd y digwyddiad yn parhau am fwy na 4 diwrnod, yna bydd yn rhaid i chi ganiatáu o leiaf 8 wythnos er mwyn i'r drwydded gael ei phrosesu. Mae hysbysiadau digwyddiadau dros dro yn ffordd o ddarparu trwydded ar gyfer digwyddiad bychan, unigol ar eiddo neu ardal (yn cynnwys yr awyr agored) ble nad yw gweithgareddau trwyddedig yn cymryd lle fel arfer. Rhaid cyflwyno ceisiadau ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn cynnal y digwyddiad. Mae cyfyngiadau llym iawn ar Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro sy'n rhaid glynu atynt. Ni ddylai nifer o bobl fod yn fwy na 499 ar unrhyw un adeg (mae hyn yn cynnwys, trefnyddion, stiwardiaid, perfformwyr a.y.b. yn ogystal â'r gynulleidfa a'r gwylwyr) Gall pob digwyddiad gyda hysbysiad digwyddiad dros dro barhau hyd at 96 awr. Bydd y broses ymgeisio'n cymryd uchafswm o ddwy wythnos Os yw ymgeisydd yn dal trwydded bersonol gall ef / hi wneud cais am hyd at 50 hysbysiad digwyddiadau dros dro mewn blwyddyn calendr. Gall unigolyn nad yw'n dal trwydded bersonol wneud cais am hyd at bump y flwyddyn.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Trwydded Bersonol.

Rhoddir ['Trwydded Bersonol'](#) i unigolyn sy'n ei ganiatáu i werthu neu gyflenwi alcohol, neu awdurdodi gwerthiant neu gyflenwad alcohol ar gyfer ei yfed ar neu oddi ar yr eiddo y mae'r drwydded eiddo mewn grym ar gyfer cynnal y digwyddiad hwnnw. I gael ei ystyried ar gyfer trwydded bersonol rhaid i unigolyn fod dros 18 mlwydd oed, bod yn berchen ar gymhwyster cydnabyddedig, bod mewn safle i ddangos i'r awdurdod trwyddedu nad yw ef/hi wedi cael ei gyhuddo/chyhuddo o droseddau arbennig, a thalu'r ffi briodol.

Os yw'r person wedi ei gael yn euog o drosedd berthnasol neu drosedd dramor yn dilyn hysbysiad i brif swyddog yr heddlu yn dilyn unrhyw ystyriaeth o unrhyw wrthwynebiad gan yr heddlu, mae'n rhaid i'r awdurdod drwyddedu ganiatáu trwydded bersonol os na ystyrir y byddai gwneud hynny yn tanseilio amcan atal trosedd. Mae trwydded bersonol yn parhau am ddeng mlynedd ac yn adnewyddadwy.

Caniatad ar gyfer defnydd safle.

Unwaith y byddwch wedi dewis y safle ar gyfer eich digwyddiad, pa un ai dan do neu yn yr awyr agored, byddwch angen dod i gytundeb gyda pherchennog y lleoliad neu'r eiddo ynglŷn â thâl ar gyfer defnyddio eu heiddo a dealltwriaeth glir o bwy sydd yn gyfrifol am beth. Er mwyn eich diogelwch eich hun, sicrhewch eich bod yn derbyn cytundeb cyfamodol ysgrifenedig rhyngddoch sy'n datgan yn glir, yr union leoliad, parc neu leoliad gwyrdd. Y dyddiadau y mae gennych fynediad i'r lleoliad (cofiwch y byddwch angen amser ychwanegol i adeiladu eich digwyddiad a'i dynnu i lawr).

Trwydded PRS.

Os oes cerddoriaeth yn eich digwyddiad, byw neu wedi ei recordio o flaen llaw, mae'n rhaid derbyn trwydded cerddoriaeth gan [Cymdeithas Hawliau Perfformio PRS](#). Mae'r seydliad yma yn cynorthwyo perfformwyr ac artistiaid i hawlio eu breindaliadau. Mae ffioedd yn ymwneud a'r defnydd o gerddoriaeth, os yw eich digwyddiad yn defnyddio unrhyw fath o gerddoriaeth, byw neu wedi ei recordio. Mae'n rhaid i chi wirio hyn gyda Cymdeithas Hawliau Perfformio (PRS) i ddarganfod os ydych angen talu unrhyw freindaliadau/ffioedd i ddefnyddio'r gerddoriaeth, neu fe allech gael eich erlyn am dor hawlfraint.

Asesiad Risg.

Mae'n rhaid i chi gynhyrchu asesiad risg ysgrifenedig. Pwrrpas yr asesiad risg yw nodi peryglon; asesu'r risg a allasai'r perygl ei achosi a phenderfynu ar fesurau sy'n diddymu neu reoli'r risg. O dan [Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974](#) a Rheoliadau Rheolaeth lechyd a [Diogelwch yn y Gweithle 1999](#) cyfrifoldeb cyflogwyr a'r rhai hunan gyflogedig yw cynnal asesiad risg, mae hyn yn cynnwys asesiad risg tan.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Os cyflogir pump neu ragor o bobl mae'n ofyniad cyfreithiol i gofnodi darganfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n amlinellu manylion y broses yma. Dylai person galluog a chymwys neu gontractwr gynnal yr asesiad risg. Dylid paratoi'r asesiad risg cyn y digwyddiad, mae'n ddogfen 'fyw' ac nid yw'n orffenedig hyd nes bydd y digwyddiad wedi dod i ben a'r safle wedi ei glirio.

Rheolaeth Torf, Diogelwch & Stiwardio.

O dan [Ddeddf Trwyddedu 2003](#), mae angen i ddigwyddiadau cyhoeddus trwyddedig ddangos bod trefniadau diogelwch a stiwardio cymwys mewn lle. Wrth ganiatáu trwydded ar gyfer digwyddiad neu adeilad, gall yr awdurdod trwyddedu ddweud bod angen nifer penodedig o oruchwylwyr mynedfa. Os ydych yn trefnu digwyddiad mawr byddwch yn fwy tebygol o fod angen cwmni diogelwch preifat i edrych ar ôl diogelwch a diogelwch torf yn ystod eich digwyddiad. Gall cwmni diogelwch cymwys ddatblygu neu eich cynghori sut i ddatblygu cynllun rheoli torf. Rhaid i drefnwyr ystyried unrhyw fesurau diogelwch arbennig a allai godi o amgylchiadau megis presenoldeb VIPs neu swm mawr o arian yn y digwyddiad. Rhaid i holl staff diogelwch wisgo eu bathodynau [Awdurdod Diwydiant Diogelwch \(SIA\)](#) bob amser.

Diffinnir diogelwch mewn digwyddiadau fel::

- Diogelu yn erbyn mynediad anawdurdodedig, meddiannaeth neu anhrefn.
- Diogelu eiddo yn erbyn dinistr a pherygl.
- Diogelu unigolion rhag ymosodiad.

Mae Gweithredu Iechyd a Diogelwch (HSE) hefyd yn cyhoeddi llyfryn '[Managing Crowds Safely](#)' Llywodraethir y diwydiant gan [Awdurdod Diwydiant Diogelwch \(SIA\)](#) a grëwyd i reoli trwyddedu gweithredwyr. Dylai holl aelodau staff diogelwch fod yn hawdd eu hadnabod. Bydd canlyniadau eich asesiad risg yn eich cynorthwyo i benderfynu ar y nifer o stiwardiaid fydd angen i reoli torf yn ddiogel. Cyfrifoldeb y trefnydd digwyddiad i sicrhau bod unrhyw stiward a gyflogir wedi derbyn hyfforddiant priodol ac wedi ei briffio am ei rôl.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Dbs.

Mae'r [Gwasanaeth Datgelu a Rhwystro \(DBS\)](#) yn cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl amhriodol rhag gweithio gyda grwpiau bregus yn cynnwys plant. Mae'n disodli'r Criminal Records Bureau (CRB) a'r Independent Safeguarding Authority (ISA). Dylai holl drefnyddion digwyddiadau roi ystyriaeth haeddiannol i ofynion DBS yng nghyswllt eu gweithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr, Mae'r DBS yn gorff cyhoeddus, di adrannol, gweithredol a hyrwyddir gan Y Swyddfa Gartref.

Cynllun Argyfwng a Gwacad.

Mae'n rhaid i chi gael cynllun argyfwng a gwacad. Bydd eich cynllun argyfwng a gwacad yn rhoi manylion sut y byddwch yn ymdrin ag unrhyw achlysur annisgwyl. Achlysur annisgwyl yw unrhyw beth sy'n digwydd yn y digwyddiad sy'n golygu bod rhaid i'r trefnwyr ymyrryd. Gallai hyn fod yn ddamwain, tân, dwyn neu anhrefn cymdeithasol.

Mae rhai achlysuron yn rhai dibwys ac efallai y byddwch chi, eich tîm, yn cynnwys rhai â chyfrifoldeb dros ddiogelwch, stiwardiaid a chymorth cyntaf yn gallu ymdrin â nhw eich hunain. Gallai eraill fod yn ddifrifol ac fe fydd angen i chi alw'r [Heddlu Gogledd Cymru](#), y [Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru](#) neu [Ymddirodolaeth CIG Gwnasanaeth Ambiwlans Cymru](#). Rhaid i'ch cynllun brys egluro sut y byddwch yn cael mynediad i'r safle a gwagio'r safle, neu ran o'r safle neu ardaloedd eraill gweithredol yn wyneb digwyddiad annisgwyl a sut y bydd y cerbydau brys yn cael mynediad. Fel trefnydd y digwyddiad rydych yn gyfrifol am weithrediad eich cynllun argyfwng, ond byddwch yn barod i gymryd cyngor gan y gwasanaethau brys ynglŷn â hyn. Gall y bydd rhai ymhlith eich cynulleidfya wedi eu heffeithio gan ystod o anableddau e.e.. Epilepsi, diffyg clyw, anhawster symud, diffyg golwg, anabledd dysgu a.y.b.. Byddwch angen sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn eich Cynllun Argyfwng a Gwacad ac eich bod yn glynu wrth ddeddfwriaeth.

Rheolaeth Trafnidiaeth.

Mae unrhyw ddigwyddiad sy'n cael effaith ar ffyrdd cyhoeddus angen Cynllun Rheoli Trafnidiaeth (CRhT). Gall olygu cynnydd mewn trafndiaeth a pharcio mewn ardal benodol neu nifer mwy nag arferol o bobl yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Ar rai adegau, gall digwyddiad ddymuno cau ffordd dros gyfnod byr. Mae ffordd sydd wedi ei chau rhag trafndiaeth, hyd yn oed am gyfnod byr o amser yn cael nifer o effeithiau. Mae angen hysbysu'r cyhoedd o unrhyw gau ffyrdd neu arall gyfeirio cyn dyddiadau'r digwyddiad. Gall bysus, tacsis a cherbydau brys gael eu heffeithio ac fe fydd angen eu hysbysu am yr arallgyfeirio.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Efallai y bydd yn rhaid cau safleoedd parcio am y diwrnod. Os effeithir ar fynedfeydd, rhaid hysbysu pobl anabl o hyn ac fe ddylid ystyried trefniant gwahanol ac efallai yr effeithir ar safleoedd llwytho busnes. Fe fydd angen i chi wneud cais am Orchymyn Rheolaeth Trafnidiaeth Dros Dro (GRT) os ydych eisiau cynnal digwyddiad sy'n cau ffyrdd i gerbydau. Os ydych yn cynnal gorymdaith neu ras ffordd, byddwch angen GRT a chytundeb eich [Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau](#) Cyngor Gwynedd neu os yn berthnasol [Traffig Cymru](#)

Os oes angen amser cau ffyrdd yna bydd angen lleiafswm o 12 wythnos i baratoi GRT. Maent angen amser i gytuno ar gau ffyrdd priodol, arall gyfeirio, arwyddion ac ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd Cyngor Gwynedd yn rhoi cyngor i chi ar gostau GRT, yr arwyddion angenrheidiol i gau ffyrdd neu nodi ailgyfeiriadau, y ffordd orau o hysbysu'r gwasanaethau cyhoeddus ac argyfwng a chludiant cyhoeddus.

Gwasanaeth Plismona.

Bydd angen i chi ymgynghori gyda'r Heddlu ar faterion yn ymwneud a'ch digwyddiad h.y. materion megis trefn gyhoeddus. Os ydych angen GRTDD (Gorchymyn Rheolaeth Trafnidiaeth Dros Dro) neu GRT(Gorchymyn Rheolaeth Trafnidiaeth).

Bydd angen i chi drafod goblygiadau cau ffyrdd gyda [Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau](#) Cyngor Gwynedd neu os yn berthnasol [Traffig Cymru](#) a [Heddlu Gogledd Cymru.](#) Cofiwch na fydd yr Heddlu yn rheoli trafndiaeth yn eich digwyddiad os nad yw'n fater o argyfwng.

Diogelwch Tân.

Mae [Gorchymyn Diwygiad Rheoleiddio \(Diogelwch Tân\) 2005](#) yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr ac mae'n ofynnol rhoi rhagofalon tân ar waith "lle bo'n briodol" ac i'r graddau y maent yn rhesymol ac yn ymarferol.

Bwriad Gorchymyn Diwygiad Rheoliadol (Diogelwch Tân) 2005 yw creu amgylchedd sy'n ddiogel rhag tân oddi mewn ac o amgylch eiddo a ddefnyddir ar gyfer; neu ran o unrhyw ddigwyddiad, yn cynnwys adeiladwaith dros dro megis pabelli a phabelli mawr.

Mae'n rhaid i berson sy'n gyfrifol am bob digwyddiad:

- Ymgymryd ag asesiad risg tân.
- Lleihau risg tân i'r lleiafswm a gweithredu rhagofalon priodol.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

- Sicrhau diogelwch unigolion perthnasol yn cynnwys gweithwyr ac eraill rhag tân mewn modd mor ymarferol â phosib.
- Darparu strategaeth diogelwch tân wedi'i gynllunio i ymdopi ag unrhyw argyfwng tân.
- Adolygu asesiad risg tân a'r strategaeth diogelwch tân pan fo'r angen.

Mae'n rhaid ystyried y materion canlynol i gydymffurfio a'r uchod:

- Ble a sut y bydd y tân yn fwyaf tebygol o gychwyn?
- A ellir diddymu neu leihau'r risg?
- Sut y bydd y tân yn cael ei ddarganfod?
- Sut y rhoi'r rhybudd o dan?
- Beth yw'r weithdrefn gwacau? (bydd hyn yn cynnwys arwyddion dihangfa tân a stiwardio)
- Ydy'r stiwardiaid/staff yn gwybod beth i'w wneud os digwydd tân? (Ydynt wedi derbyn hyfforddiant priodol?)
- Pa weithdrefnau sydd mewn lle i alw'r gwasanaeth tân?

Hyd yn oed os ydych wedi cynnwys tân yn eich prif asesiad risg mae gofyn i chi gael asesiad risg tân ar wahân yn ogystal. Gellir cael rhagor o gyngor ar ddiogelwch tân, yn cynnwys arweiniad ar ddigwyddiadau a lleoliadau awyr agored' ar dudalennau gwe [Gweithredwr Iechyd a Diogelwch](#) Gallwch hefyd gysylltu â [Gwasanaethau Tân & Achub Gogledd Cymru](#) yn uniongyrchol am arweiniad pellach.

Gwasanaeth Meddygol.

Mae'r ddarpariaeth cymorth cyntaf yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cynnwys gweithgaredd, lleoliad a'r nifer o bobl a ddisgwylir i fynychu. Peidiwch â dibynnu ar berson lleol i gynnig cymorth cyntaf oherwydd ei swydd, mae yna reolau sy'n ymwneud â chymhwyster a dilysrwydd sy'n darparu gwasanaeth yn ystod digwyddiadau cyhoeddus. Os ydych yn cynllunio digwyddiad mawr yna fe fydd angen i chi drafod eich anghenion gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans GIC Cymru mor fuan â phosib. Bydd [Ymddiriedolaeth GIC Gwasanaeth Ambiwlans Cymru](#) yn falch i'ch cyngori gyda'r gofynion fydd angen i gynnal eich digwyddiad ac oddi fewn i ganllawiau [Gweithredwr Iechyd a Diogelwch](#)

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Cyfathrebu.

Mae'n hanfodol fod stiwardiaid, staff diogelwch a'r trefnyddion yn gallu cyfathrebu yn effeithiol. Yng nghyswllt digwyddiadau mawr pan fo'r angen dylid sicrhau fod adnodd ar gyfer o leiaf un swyddfa wedi'i staffio ar y cyd (Rheolaeth Digwyddiad) Mae hyn yn darparu modd o gyd gyfathrebu rhwng y sefydliadau sy'n cymryd rhan. Mae cyfathrebu ar cyhoedd yr un mor bwysig â chyfathrebu rhwng staff. Os digwydd argyfwng neu achos gwacâd mae'n rhaid i sicrhau bod modd effeithiol o gyfathrebu mewn lle, ac mae angen i hyn ffurfio rhan o'r cynllun gwacâd.

Adeiladwaith Dros Dro.

Daeth [Rheoliadau Adeiladu \(Cynllun a Rheolaeth\) 2015 \(CDM 2015\)](#) i rym ym Mhrydain Fawr ar 6 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau yn gosod yr hyn y mae'r bobl sy'n ymwneud â gwaith adeiladu angen ei wneud i'w diogelu eu hunain ac unrhyw un arall a allasai gael i effeithio rhag niwed, mae hyn yn cynnwys gwaith adeiladu mewn digwyddiad yn ogystal. Beth bynnag fo'ch rhan mewn adeiladu, bwriad CDM yw gwella iechyd a diogelwch yn y diwydiant trwy eich cynorthwyo i:

- cynllunio'r gwaith yn ddoeth fel y gellir rheoli'r risgiau o'r cychwyn i'r diwedd.
- cael y bobl iawn ar gyfer y gwaith iawn ar yr amser iawn.
- cydweithio a chydlynw eich gwaith gydag eraill.
- cael y wybodaeth gywir ynglŷn â'r risg a sut meant yn cael eu rheoli.
- rhannu'r wybodaeth yma yn effeithiol gyda'r rhai sydd angen gwybod.
- ymgynghori a chysylltu â gweithwyr ynglŷn â'r risg a sut y maent yn cael eu rheoli.

Mae Gweithredu Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi [Arweiniad cyfreithiol sydd yn cefnogi CDM 2015](#) sy'n rhoi rhagor o eglurhad. Mae gwybodaeth am ofynion cyfreithiol ac amserlen ynglŷn â sut y daeth y newidiadau i rym hefyd ar gael.

Rhwysrau.

Mae rhwysrau yn ddefnyddiol mewn digwyddiad ond os ydynt yn cael eu defnyddio'n briodol. Sicrhewch eu bod yn diogelu'r cyhoedd, ond dylid gofalu rhag eu caethiwo mewn argyfwng. Dylid defnyddio rhwysrau torf yn briodol i warchod y cyhoedd. Dylid cael rhwystr 2 fedr o'r llwyfan ac os ydych yn disgwyl cynulleidfa fawr neu fod gennych berfformiwr poblogaidd iawn ar y llwyfan dylai fod gennych rwysrau yn y gofod o flaen y llwyfan.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Dylid cadw pobl draw oddi wrth safleoedd peryglus trwy gyfrwng rhwystrau. Os ydych yn bwriadu rhoi ffens o amgylch eich safle ac yn codi ffi mynediad, rhaid codi rhwystrau neu ffens briodol gyda mynedfeydd ac allanfeydd digonol ar gyfer cerddwyr a cherbydau brys. Dylai rhwystrau fod yn briodol ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwy ar ei gyfer ac fel yng nghyswllt adeiladwaith dros dro dylid eu hadeiladu trwy gydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Materion Amgylcheddol.

Fel trefnydd digwyddiad mae'n rhaid i faterion Gwarchod yr Amgylchedd a'r Cyhoedd fod yn un o'ch prif flaenoriaethau. Rhaid i chi ystyried pa un ai yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y digwyddiad arfaethedig. Rhaid ystyried pryderon unrhyw drigolion lleol wrth ddatblygu cynlluniau yn enwedig mewn perthynas â llygredd sŵn, ymddygiad gwrth cymdeithasol a sbwriel.

Cyfrifoldeb y trefnydd digwyddiad yw sicrhau fod y safle yn yr un cyflwr ag yr oedd cyn y digwyddiad. Cysylltwch â [Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd](#) Cyngor Gwynedd i gael cyngor ar faterion llygredd sŵn, arlwy, iechyd a diogelwch, consesiynau 3ydd parti, safonau masnachu, glanhau safle, cyflenwad dŵr a thoiledau. Gallwch hefyd gysylltu a [Chyfoeth Naturiol Cymru](#) am wybodaeth am lifogydd neu faterion eraill amgylcheddol byddent yn barod iawn i gynorthwyo.

Adnoddau Lles.

Dylid adolygu adnoddau lles yn gyson i sicrhau eu bod yn ddigonol. Y meysydd sydd angen eu hystyried yw toiledau, plant ar goll, bwyd a diod, gorchudd pabell fawr, goleuo a.y.b.. Fel y trefnydd digwyddiad disgwylir i chi gydymffurfio trwy gydol yr amser gydag unrhyw reoliadau a deddfwriaeth.

Mynediad ar gyfer yr Anabl.

Mae [Deddf Gwahaniaethu Anabledd 1995](#) a [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn golygu fod gennych rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu mynediad ar gyfer pobl anabl fydd eisiau mynychu eich digwyddiad. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#). Ystyriwch ddarparu ar gyfer pobl gyda phroblemau symud, problemau cerdded, diffyg golwg a / neu glyw. Darparwch blatfform fel y gall y rhai sy'n defnyddio cadair olwyn weld y llwyfan. Sicrhewch fod mynediad addas ar gyfer cadeiriau olwyn i'r toiledau anabl trwy gydol eich digwyddiad.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Dylid cynnwys rhif cyswllt ac e-bost ar holl gyhoeddusrwydd digwyddiad fel y gall pobl gydag anghenion arbennig gael gwybodaeth ychwanegol am drefniadau'r safle. Dylai'r arwyddion fod yn syml, byr cyson a hawdd eu deall gan ddefnyddio ffurf deip lliw a dyfeisiau graffeg a gymeradwyir. Dylid ystyried anghenion gwylwyr sydd ag anghenion arbennig trwy gydol yr amser.

Gwybodaeth ac Arwyddion.

Mae sicrhau bod eich cwsmeriaid yn dod o hyd i chi yn rhwydd ar y diwrnod yn bwysig iawn. Felly mae'n bwysig trefnu arwyddion cyfeiriol clir a thrafod eich anghenion gyda [Gwasanaeth Traffic a Phrosiectau](#) Cyngor Gwynedd Byddwch hefyd angen digon o arwyddion clir i mewn ac o amgylch lleoliad eich digwyddiad. Cofiwch fod angen i unrhyw arwyddion ffordd fod yn ddwyieithog.

Yswiriant.

Byddwch angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus/cyflogaeth/deunydd. Ewch at arbenigwr yswiriant digwyddiad a chofiwch ddarllen y print mân ar unrhyw bolisi a gynigir i chi. Gall tywydd garw eich gorfodi i ganslo digwyddiad awyr agored. Gallwch dderbyn yswiriant i'ch diogelu yn erbyn hyn. Mae yswiriant tywydd garw yn gallu bod yn ddrud ond mae'n well na chymryd y risg.

Dŵr.

Os yw eich digwyddiad angen cyflenwad dŵr newydd neu gyflenwad ar wahân byddwch angen cysylltu â [Dŵr Cymru](#) am arweiniad ac i drafod eich anghenion.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

YSTYRIAETHAU ERAILL MWY CYFFREDINOL.

Ffyrdd a gwaith Adeiladu.

Dylid ystyried hyn wrth gynllunio digwyddiad. Dylech gysylltu gyda [Gwasanaeth Traffic a Phrosiectau](#) Cyngor Gwynedd i sicrhau nad yw eich digwyddiad a'i rwydwaith yn gwrthdaro yn erbyn gwaith arfaethedig.

Cydllynu.

Dylid ystyried yr amser o'r diwrnod a'r wythnos y bwriedir cynnal y digwyddiad. Efallai y buasai'n ddoeth osgoi rhai diwrnodau ac amseroedd yn yr wythnos i leihau anghyfleustra neu wrthdaro gyda digwyddiadau eraill. Am wybodaeth digwyddiadau edrychwch ar ein gwefan o dan adran [Digwyddiadau](#)

Diogelwch ffyrdd.

Dylech ofyn cyngor gan [Wasanaeth Traffic a Phrosiectau](#) Cyngor Gwynedd mor fuan â phosib.

Darpariaeth Bwyd.

Wrth ddefnyddio contractwyr arlwygo allanol, sicrhewch eu bod wedi eu cofrestru dan [Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990](#) a'u bod yn berchen ar yswiriant atebolrwydd priodol. Gellir cael gwybodaeth a chynghor am yr holl ddarparwyr bwyd gan [Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd](#)

Llygredd Sŵn.

Yn aml mewn digwyddiadau a chyngherddau mawr fe chwaraeir cerddoriaeth uwchseiniol. Fe gynghorir trefnyddion i gysylltu gyda [Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd](#) Cyngor Gwynedd mor fuan â phosib i dderbyn cyngor.

Plant a Phlant ar goll.

Dylai pob digwyddiad gael polisi gwarchod plant. Gellir cael gwybodaeth gan [Gymdeithas Genedlaethol Atal Creulondeb i Blant \(NSPCC\)](#) ac mae canllawiau hefyd yn y [Canllaw Porffor](#). Dylid cynnwys eich polisi ymdrin â phlant ar goll yn eich polisi gwarchod plant. Dylech gael safle plant ar goll wedi ei staffio'n briodol. Byddai'n syniad cael o leiaf un person sy'n gallu'r Gymraeg er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol. Peidiwch byth â chyhoeddi enwau plant dros y system sain, mae enwau'r rhieni a disgrifiad o'r plentyn yn ddigon. Os nad oes unrhyw un wedi dod i nôl y plentyn ar ôl 30 munud, dylid hysbysu'r Heddlu a / neu'r Gwasanaeth Cymdeithasol a gofyn am eu cyngor. Os yw plentyn ar goll dylid hysbysu'r Heddlu ac adran diogelwch y safle ar unwaith.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Proffil Cynulleidfa.

Bydd proffil cynulleidfa yn dylanwadu ar eich asesiad risg. Dylid ystyried anghenion gwahanol blant ifanc, yr arddegau, oedolion a'r henoed anghenion ieithyddol y gynulleidfa. Mae gwerthu alcohol ai pheidio yn ffactor sylfaenol. Dylai'r asesiad risg adlewyrchu hyn.

Cludiant cyhoeddus.

Rhaid rhoi ystyriaeth i'r effaith y gallai eich digwyddiad gael ar wasanaeth cludiant cyhoeddus oherwydd cau ffyrdd, neu ofyn mawr am y gwasanaeth. Dylech gysylltu â'r gwasanaethau a allasai gael eu heffeithio a thrafod manylion eich digwyddiad gyda hwy.

Marchnata eich Digwyddiad.

Gan fod eich digwyddiad yn cymryd lle mewn ardal Gymreig dylech dalu sylw arbennig i sicrhau bod eich holl wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiad yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Dylid lle bo'n bosibl gynnwys y Gymraeg ar Saesneg ar yr un daflen poster neu arwydd. Am gymorth ac arweiniad pellach parthed materion ieithyddol cysylltwch â [Chomisiynydd y Gymraeg](#) neu [Uned Hybu Iaith Cyngor Gwynedd](#)

Gellir hefyd hyrwyddo eich digwyddiad ar wefan Twristiaeth y Cyngor [Ymweld ac Eryri](#)

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

PWY SY’N GYFRIFOL AM IECHYD A DIOGELWCH MEWN DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS?

Y Trefnydd Digwyddiad a/neu berchennog y tir sy’n gyfrifol am iechyd a diogelwch y cyhoedd a’r rhai sy’n cymryd rhan yn y digwyddiad. Rhaid i chi sicrhau fod gennych berson wedi ei enwebu i fod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich digwyddiad.

Beth yw Grŵp Ymgynghorol Gwynedd (GYD)?

Mae [Grŵp Ymgynghorol Diogelwch \(GYD\)](#) yn cynnwys swyddogion Cyngor Gwynedd yn ogystal â Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru GIC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac eraill yn dibynnu ar natur y digwyddiad. Cadeirir y Grŵp gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd.

Pwrpas y grŵp yw sicrhau mor ymarferol â phosib, bod y bobl sy’n mynychu neu’n gweithio mewn digwyddiadau yn ddiogel ac nad yw eu mwynhad yn tarfu ar aelodau eraill o’r cyhoedd mewn ffordd annymunol, mewn geiriau eraill eich cynorthwyo i wneud eich digwyddiad yn un hapus a diogel i bawb. Os yw’n angenrheidiol (yng nghyswllt digwyddiadau mawr fel rheol) fe drefnir cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ac fe’ch gwahoddir chi (y trefnydd digwyddiad) i gymryd rhan yn y cyfarfod. Bydd gofyn i chi roi gwybodaeth berthnasol i’r grŵp ynglŷn â’ch digwyddiad, megis cynllun digwyddiad, cynllun safle a chynllun diogelwch digwyddiad, asesiad risg i gynnwys asesiad risg tân fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw. Bydd angen i GYD dderbyn y dogfennau yma mewn ffurf drafft dwy wythnos cyn y cyfarfod gyda’r dogfennau terfynol i’w cyflwyno chew wythnos cyn y digwyddiad. Os nad yw’r dogfennau yma wedi derbyn fel a nodir ni ellir aelodau GYD sicrhau cywirdeb y cyngor a roddir.

Cofiwch, grŵp ymgynghorol yw hwn sydd yma i’ch cynorthwyo i lwyfannu eich digwyddiad a sicrhau bod pawb yn derbyn yr hyn y maent eu hangen. Mwynhad, diogelwch, iechyd a lles pawb yn ac o amgylch eich digwyddiad yw prif amcanion y grŵp/cyfarfod yma. Gallasai asiantaethau gorfodi unigol weithredu’n fwy ffurfiol os oes diffyg cydymffurfio neu esgeulustod difrifol ar ran y trefnyddion.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Beth ydych angen ei wneud?

Mae holl aelodau GYD yma i'ch cynorthwyo i wneud eich digwyddiad mor ddiogel â phosib, ond eich digwyddiad chi ydyw a'ch cyfrifoldeb chi. I alluogi'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch i asesu unrhyw risg arfaethedig sy'n gysylltiedig â'ch digwyddiad gellir gwneud hyn trwy lenwir ffurflen cofnodi digwyddiad. Fe'ch cynghorir i roi gwybodaeth am eich digwyddiad mor fuan â phosib trwy'r ffurflen hysbysiad digwyddiad, yn unol â'r argymhellion isod:

- Digwyddiadau bach heb gau ffyrdd hyd at 5,000.
Cynghorir hysbysiad 6 mis - lleiafswm 3 mis.
- Digwyddiadau canolig dim cau ffyrdd 5,000-10,000.
Cynghorir hysbysiad 12 Mis - lleiafswm 6 mis.
- Digwyddiadau mawr ac unrhyw ddigwyddiad sy'n golygu cau ffyrdd. Mae hyn yn berthnasol waeth beth fo'r nifer sy'n mynychu neu os ydych angen trwydded ar gyfer eich digwyddiad.
Cynghorir hysbysiad 12 Mis - lleiafswm 9 mis.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y bydd Cyngor Gwynedd wedi derbyn eich ffurflen hysbysiad, fe'i hasesir ar sail risg yn cynnwys natur a maint eich digwyddiad gan GYD. Fe wneir penderfyniad pa un ai fydd angen i chi fynychu cyfarfod GYD yn ffurfiol ai peidio.

Os yw GYD yn hapus gyda'r Hysbysiad Digwyddiad a'r asesiad fe'ch hysbysir na fydd angen i chi fynychu cyfarfod GYD. Efallai y byddwch yn derbyn gwahoddiad i anfon dogfennaeth digwyddiad i mewn ar gyfer sylwadau neu argymhellion. Efallai y byddwch yn cael eich cynghori i newid rhai o'ch cynlluniau i wella diogelwch a sicrhau y cyflawnir safonau rheolaeth sylfaenol cyn y cynhelir eich digwyddiad.

Os oes gofyn i chi fynychu GYD fe gysylltir â chi dros y ffôn neu trwy e-bost yn nodi'r dyddiad a'r amser y dylech fynychu. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i roi cymaint o rybudd a phosib cyn y cyfarfod.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL.

[Cyngor Gwynedd](#)

Ff: 01766 771000

Gwasanaethau perthnasol

[Gwasanaeth Addysg](#)

Ff: 01286 679227T: 01286 67900

[Gwasanaeth Bwrdeistrefol ac Ailgylchu](#)

Ff: 01286 679871

[Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd](#)

Ff: 01286 682874

[Gwasanaeth Traffic a Phrosiectau](#)

Ff: 01286 679008

[Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer](#)

Ff 01286 679963

[GYD \(SAG\)](#)

Ff: 01286 679398

[Uned Digwyddiadau Gwynedd](#)

Ff: 01286 679398

Sefydliadau eraill

[Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#)

Ff: 0300 123 1213

[Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Ff: 0300 0653000

[Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](#)

Ff: 01745 535 250

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

[Heddlu Gogledd Cymru](#)

Ff: Cymraeg 08456071001

Saesneg 08456071002

[Parc Cenedlaethol Eryri](#)

Ff: 01766 770274

[Traffig Cymru – Llywodraeth Cymru](#)

Ff: 0300 123 1213

[Ymddiriedolaeth GIC Gwasanaeth Ambiwlans Cymru](#)

Ff: 01745 532 900

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

CYHOEDDIADAU DEFNYDDIOL.

[Arweiniad Cyflenwad Dwr](#)

Partneriaeth Iechyd Dwr Cymru

[Canllawn Adeiladu \(Cynllunio a Rheolaeth\) Canllawniau 2015](#)

Gweithredwr Iechyd a Diogelwch.

[Canllaw ar gyfer Asesiad Risg Tan](#)

Gweithredwr Iechyd a Diogelwch.

[Canllaw ar gyfer Diogelwch Mewn Stadiwm Chwaraeon \(Canllaw Gwyrdd\)](#)

Swyddfa adnoddau swyddfa .

[Canllaw Diogelwch Digwyddiadau \(Canllaw Porffor\)](#)

Arweiniad mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a lles ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth ac eraill. Datblygwyd y cyhoeddiad hwn gan Fforwm Diwydiant Digwyddiadau. Mae'r cyhoeddiad ar gael ar-lein am danysgrifiad blynyddol £25 ac fe'i diweddarir yn ôl y gofyn ac fel y bydd y gyfraith yn newid.

[Cyngor Sŵn](#)

Arweiniad ar reoli sŵn mewn digwyddiadau

[Rheoli Iechyd a Diogelwch – Pum cam i lwyddiant](#)

Gweithredwr Iechyd a Diogelwch.

[Rheoli Torfeydd yn Ddiogel](#)

Gweithredwr Iechyd a Diogelwch.

[Parc Cenedlaethol Eryri](#)

Cymorth i gynnal digwyddiad ym Mharc Eryri.

CANLLAW AR GYFER CYNLLUNIO A LLWYFANNU DIGWYDDIAD YNG NGWYNEDD

Paratowyd a golygwyd gan: Hugh Edwin Jones, Msc. DIP RSA, DIP ESM, Tech IOSH.
(15 Ionawr 2020).

Cyhoeddwyd gan: Cyngor Gwynedd dymuna'r cyhoeddwyr ddiolch i Mr Edward Grant LLB MA Prifysgol Derby am gymorth technegol wrth roi'r ddogfen yma ynghyd Bwriedir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydyw yn ddatganiad awdurdodedig llawn o'r gyfraith ac nid yw'n cynnwys cyngor proffesiynol na chyfreithiol.

Nid yw Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn unrhyw ffordd o gwbl am gamgymeriadau, anghywirdebau, esgeulustod neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau yma neu am unrhyw safle ble maent wedi eu cysylltu. Rhaid nodi yn neilltuol er bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir mae newidiadau yn y gyfraith a natur y gweithrediad yn golygu na all y wybodaeth ar y tudalennau hyn gael eu gwarantu i fod yn gywir.

Cynlluniwyd gan: Cread Cyf.

© Cyngor Gwynedd.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei ail gynhyrchu, ei gadw mewn system ad alwad neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffordd, ffurf neu mewn unrhyw ddull heb ganiatâd blaenorol gan y cyhoeddwr.

V 7 15-01-20 – hej.